Campus Services
Gwasanaethau'r Campws

# Croeso i Neuadd Aberdâr






## Derbynfa

Mae'r dderbynfa ar agor rhwng 08:00 a 18:00 ddydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio gwyliau banc. Dylai'r holl westeion fynd yno oni bai eu bod wedi trefnu fel arall.

Os byddwch yn cyrraedd y tu allan i oriau agor y dderbynfa, cysylltwch â ni ymlaen llaw i wneud trefniadau eraill + 44 (0) 29 2087 4702 / + 44 (0) 29 2087 4616.

I'r rheini sydd wedi gwneud cynlluniau i gyrraedd yn hwyr, cysylltwch â'r tîm Diogelwch drwy ffonio: +44 (0) 29 2087 4444.

Mae'r dderbynfa yn Neuadd Aberdâr, Heol Corbett, Caerdydd, CF10 3UP.
Ffôn: +44 (0)29 2087 6476.

## Parcio

**Does dim cyfleusterau parcio ar gael yn Neuadd Aberdâr.**

Sylwer: Does dim modd parcio ar Sgwâr y Frenhines Anne; mae'r rhodfa golofnog wrth ymyl Neuadd Aberdâr yn ffordd breifat ac yn gorfodi mesurau clampio llym yn erbyn parcio anghyfreithlon.
Mae'r maes parcio agosaf ar Ffordd y Gogledd. Gweithredir system talebau talu ac arddangos Cyngor Caerdydd yma. CF10 3DY yw'r côd post.

## Gwybodaeth Leol

Os byddwch yn teithio i Gaerdydd ar fws neu drên, mae'n cymryd tua 25 munud i gerdded o orsaf Caerdydd Canolog i Neuadd Aberdâr. Cathays yw'r orsaf agosaf, ac mae'n cymryd tua 10 munud i gerdded oddi yno i'r neuadd. Fel arall, mae tacsis ar gael yng nghanol y ddinas, mae prisiau'n amrywio yn dibynnu ar y pellter a llif y traffig.

Cewch wybodaeth am deithio ar fysiau drwy glicio'r ddolen ganlynol: Bws Caerdydd

## Ar yr M4 o'r Gorllewin

- Gadewch yr M4 wrth gyffordd 32 a dilynwch arwyddion yr A470 tuag at Gaerdydd.
- Rhybudd: Mae camerâu cyflymder ar hyd yr A470
- Wrth i chi agosáu at ganol y ddinas, byddwch yn cyrraedd Cyfnewidfa/Trosffordd Gabalfa
- Ewch drosti i Heol y Gogledd (yr A470 o hyd)
- Ar ôl tua milltir bydd y ffordd yn ymrannu. Ewch ar y ffordd i'r dde a mynd yn eich blaen ar hyd Heol y Gogledd. Wrth yr ail set o oleuadau traffig, trowch i'r chwith ar Heol Corbett
- Bydd Neuadd Aberdâr ar y chwith (Rhif 60)

## Ar yr M4 o'r Dwyrain

- Gadewch yr M4 ar Gyffordd 29 (dilynwch arwyddion Dwyrain a De Caerdydd), cyn ymuno â thraffordd yr A48(M)
- Pan ddaw'r draffordd i ben, ewch yn eich blaen ar yr A48. Wrth ddod i mewn i Gaerdydd, ewch yn syth ymlaen (dilynwch arwyddion Canol y Ddinas)
- Rhybudd: Mae camerâu cyflymder ar hyd yr A48
- Arhoswch yn y lôn chwith (dilynwch arwyddion Canol y Ddinas A470), yna ewch oddi ar y gylchfan ar yr ail ffordd ymadael i gyfeiriad Heol y Gogledd
- Ewch yn eich blaen, cyn ymuno â Heol y Gogledd - A470
- Rhybudd: Mae camerâu cyflymder ar hyd yr A470
- Ar ôl tua milltir bydd y ffordd yn ymrannu. Ewch ar y ffordd i'r dde a mynd yn eich blaen ar hyd Heol y Gogledd. Wrth yr ail set o oleuadau traffig, trowch i'r chwith ar Heol Corbett
- Bydd Neuadd Aberdâr ar y chwith (Rhif 60)

Campus Services

Gwasanaethau'r Campws

Cewch hyd i'r wybodaeth yma ar y gwefannau canlynol hefyd (**CF10 3UP yw'r côd post ar gyfer eich SatNav**):
This information can also be found via the following websites (**SatNav postcode is CF10 3UP**):

**www.rac.co.uk/route-planner**
**www.theaa.com/travelwatch/planner_main.jsp**

Neuadd Aberdâr Cyfeirnod map 60
Aberdare Hall Map ref 60

